


(Parhad o dudalen 9)

yngh Ngwesty Sior III ym Mhenmaenpool. Trallwyswyd bron i dri chwarter miliwn i economi cefn gwlad Gwynedd, a chrewyd oddeutu tair mil o swyddi dros yr haf. Ar 3 Gorffennaf 1995 cynhaliwyd y *premiere* Ewropeaidd yn y Coliseum Porthmadog, pan fynychodd Julia Ormond, a chwaraeai Gwenhwyfar, yr achlysur.

Ers hynny mae yna nifer o ffilmiau eraill wedi cael eu cynhyrchu yng Ngwynedd, megis *Happy Now* (2000) gyda Ioan Gruffudd. Ffilmwyd hi yn Nolgellau, Llanelltud a'r Bermo. Dangoswyd y ffilm yng Ngŵyl Ffilmiau Caeredin yn ystod Hydref 2000. Ffilm arall a leolwyd yn rhannol yn Nolgellau oedd *Eldra*, sef hanes Eldra Jarman ac a ddarlledwyd dros y Nadolig 2001. Bu nifer o'r ardalwyr yn eu mwynhau eu hunain ac yn cael tâl wrth actio yn y ffilm. Does dim dwywaith fod gogledd Cymru wedi denu gwneuthurwyr ffilmiau yn gyson dros y tri chwarter canrif diwethaf a'r un stori sydd i dde Cymru, o ran hynny, ond câf gyfle eto, dwi'n gobeithio, i godi'r llenni ar y datblygiad yna maes o law.

(Gol. Mae enw Gwilym Hughes yn ymddangos yn y *Guinness Book of Records* gan ddal y record o fod yr un sydd wedi gweld y mwyaf o ffilmiau, gyda'r cyfanswm enfawr o 25,000.

(Parhad ar y dudalen ôl)



Y groes geltaidd a grewyd ar gyfer y ffilm 'First Knight' sydd i'w gweld ar ochr bryn ger maes Y Pandy, Talyllyn.



Golygfa o'r ffilm *Eldra* yn Nolgellau.